Undeb Myfyrwyr Wrecsam
**Wrexham Students' Union**

# PECYN RECRIWTIO

## Ymddiriedolwr Allanol

Dyddiad Cau ar gyfer: 5yh 31 mis Ionawr 2026



[www.wrexhamglyndwrsu.org.uk](http://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk)
Wrexham Students' Union, Mold Rd, Wrexham, LL11 2AW

# Croeso

Helo!

Diolch am ddangos diddordeb mewn dod yn Ymddiriedolwr yn Undeb Myfyrwyr Wrecsam (UMW). Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau mai UMW sydd wrth galon ein cymuned fyfyrwyr lewyrchus. Grymuso pob myfyriwr/wraig Prifysgol Wrecsam yw ein hanfod, fel eu bod yn gwireddu eu huchelgeisiau, creu'r newid y maent eisiau ei weld a manteisio i'r eithaf ar eu hamser yn y Brifysgol. Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr cryf a gweithgar yn hanfodol wrth i ni fynd yn ein blaen i wella UMW, gan gefnogi ein llwyddiant parhaol. Rydym yn chwilio am Ymddiriedolwr allanol newydd i ddod â mwy o nerth a dyfnder i'r Bwrdd a sicrhau fod yr Undeb yn parhau i ddatblygu.

Rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr a ffurfir gan Swyddogion Sabothol, Ymddiriedolwyr Myfyrwyr, ac Ymddiriedolwyr nad ydynt yn fyfyrwyr.

Dewch o hyd i ragor o wybodaeth am ein bwrdd ymddiriedolwyr yma

Mae tîm o staff cyflogedig a myfyrwyr hefyd yn cefnogi'r Bwrdd yn ogystal â gwirfoddolwyr. Byddwch yn ymuno ar adeg gyffrous i Undeb y Myfyrwyr. Yn ddiweddar, rydym wedi tyfu ein tîm staff, gan gynnwys Prif Weithredwr newydd ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Brifysgol ar ddatblygu Campws 2030. Rydym hefyd wrthi'n rhoi ein strategaeth newydd at ei gilydd. Sefydliad aelodaeth nid-er-elw yw Undeb y Myfyrwyr, yn annibynnol ar Brifysgol Wrecsam, sydd â phoblogaeth fyfyrwyr o fwy nag 11,200 o fyfyrwyr llawn amser a rhan amser. Dyma gyfle arbennig i ddod yn rhan o redeg elusen gyda throsiant o fwy na £800,000, ac i chwarae rhan fwy yn eich Undeb y Myfyrwyr - dyma obeithio eich bod am ymgeisio!

Gellir cael mwy o wybodaeth yn www.wrexhamglyndwrsu.org.uk

Dylai'r pecyn hwn a'r dolenni cysylltiedig ddarparu popeth sydd ei angen arnoch i gefnogi eich cais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Freya Groom, Llywydd Undeb y Myfyrwyr a Chadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, supresident@wrexham.ac.uk

# Ynglŷn ag Undeb Myfyrwyr Wrecsam

**Cenhadaeth a Gweledigaeth:** Mae Undeb Myfyrwyr Wrecsam (UMW) wedi'i ymrwymo i rymuso pob myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam i wireddu eu huchelgais, gwneud newidiadau ystyrlon a mwynhau eu hamser yn y brifysgol i'r eithaf. Mae'r Undeb yn ymdrechu i fod wrth galon gymuned fyfyrwyr ffyniannus, gan feithrin amgylchedd cefnogol a chynhwysol lle gall pob myfyriwr flodeuo.

**Gwerthoedd Craidd:** Mae UMW wedi ymrwymo i fod yn ddibynadwy, deinamig, cynhwysol a grymusol. Mae'r gwerthoedd hyn yn arwain gweithredoedd a mentrau'r Undeb, gan sicrhau ymagwedd ymatebol a hyblyg i anghenion myfyrwyr a hyrwyddo cynwysoldeb trwy gael gwared ar rwystrau. Gwasanaethau a Chyfleusterau: Mae'r Undeb yn darparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys cyngor, cymorth a mannau i gymdeithasu, ee Bar a Lolfa Glyn sy'n ganolog i weithgareddau myfyrwyr. Mae'r Undeb hefyd yn cefnogi nifer o glybiau a chymdeithasau, gan gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddarganfod diddordebau newydd, meithrin sgiliau, a chysylltu â'u cyfoedion.

**Gwaith Allweddol:**

1. Lles Myfyrwyr Mae UMW yn hyrwyddo profiad myfyriwr iach trwy wahanol ddigwyddiadau a gwasanaethau cymorth, gyda'r nod o wella lles myfyrwyr.
2. Cymorth Academaidd: Mae'r Undeb yn cynnig cyngor ac adnoddau i helpu myfyrwyr i gyflawni llwyddiant academaidd ac ennill sgiliau ychwanegol ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r brifysgol.
3. Eiriolaeth a Chynrychiolaeth: Mae UMW yn sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol, gan ddadlau dros fuddiannau myfyrwyr ar lefel leol a chenedlaethol.

**Ffocws y Dyfodol:** Mae UMW yn canolbwyntio ar ehangu ei wasanaethau, gwella arferion cynaliadwyedd, a meithrin cymuned fwy cynhwysol. Mae'r Undeb wedi ymrwymo i wella'n barhaus ac ymaddasu i ddatblygu yn ôl anghenion ei aelodaeth. I gael gwybodaeth bellach, gellir pori gwefan UMW

# Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



Cadeirydd - Freya
(Ymddiriedolwr sy'n
Swyddog Llawn Amser)



Is-gadeirydd- Scott Farmer
(Ymddiriedolwr Allanol)



David Agboola
(Ymddiriedolwr sy'n
Fyfyriwr)



Hafsa Farju
(Ymddiriedolw
r sy'n Swyddog
Llawn Amser)



Jon Russ
(Ymddiriedolwr
Allanol)



Jazz Simpson
(Ymddiriedolwr sy'n
Fyfyriwr)




Ymddiriedolwr sy'n
Fyfyriwr

[www.wrexhamglyndwrsu.org.uk](http://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk)
Wrexham Students' Union, Mold Rd, Wrexham, LL11 2AW

# Swyddogaeth Ymddiriedolwr Allanol

Daw'r ymgeiswyr llwyddiannus yn eu cais ar gyfer swydd Ymddiriedolwr Allanol yn aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr. Swydd wirfoddol yw hon (talir dros gostau rhesymol) ac yn gyfle cyffrous i ennill profiad fel cyfarwyddwr elusen.

**Pwy sydd ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr?**

Ffurfir y Bwrdd gan hyd at 10 aelod ac mae'n dod at ei gilydd o leiaf 4 gwaith y flwyddyn i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff ymddiriedolwyr eu hethol (neu eu dewis) yn ôl y meini prawf fel yr amlinellir yn Erthyglau Cymdeithasu yr Undeb er mwyn sicrhau arweinyddiaeth fyfyrwyr a recriwtio arbenigedd broffesiynol. Mae'r Bwrdd llawn yn cynnwys:

- Dau Ymddiriedolwr Sabothol
- Dau Ymddiriedolwr sy'n Fyfyrwyr
- Pedwar Ymddiriedolwr Allanol

**Beth mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ei wneud?**

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am strategaeth, rheoli a chyllid gyffredinol Undeb y Myfyrwyr. Canolbwynt Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yw sicrhau bod adnoddau Undeb y Myfyrwyr yn cael eu gweithredu'n effeithiol er budd ac er gwell ei amcanion a'i nodau.

# Swyddogaeth Ymddiriedolwr Myfyriwr (parhad)

**Cyfrifoldeb y Bwrdd yw:**

- Rhoi cyfarwyddyd strategaethol, gan benderfynu a diogelu cenhadaeth a gweledigaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Gwneud y penderfyniadau yn ôl yr angen er mwyn rheoli a goruchwylio Undeb y Myfyrwyr.
- Sicrhau bod strwythur clir i lywodraethu'r sefydliad, gan gynnwys diffinio swyddogaeth unrhyw grwpiau ffocws neu bwyllgorau.
- Sicrhau fod gan Undeb y Myfyrwyr adnoddau ariannol digonol at ei weithgareddau. Ymateb yn brydlon i amddiffyn asedau ac eiddo Undeb y Myfyrwyr.
- Sicrhau fod yr Undeb yn cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethu ei hun, y cyfreithiau perthnasol a'r gofynion a osodir gan ei noddwyr a/neu gyrff eraill.
- Adolygu'r risgiau y mae'r Undeb yn eu hwynebu, ymateb i leihau'r risgiau hynny, a sicrhau y caiff risgiau eu datrys mewn modd priodol.
- Delio â phenodi, pennu, gwerthuso, sgorio, atal, ymddiswyddo, a phenderfynu cyflog ac amodau gwasanaeth y Prif Swyddog Gweithredol.
- Bod yn gyflogwr cyfrifol.
- Ffurfio pwyllgorau i gyflawni'n effeithiol dyletswyddau angenrheidiol y Bwrdd.

# Manyleb Personol
# Ymddiriedolwr Allanol

Er bod gennym ddiddordeb mewn ymgeiswyr sydd â phrofiad o waith Adnoddau Dynol neu oruchwylio arian, rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion ag amryw sgiliau a chefndiroedd.

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad a Chefndir** | | |
| Profiad o hanfodion cyfraith cyflogaeth | | |
| Goruchwylio arweinyddiaeth uwch | | |
| Llywodraethu pobl a diwylliant | | |
| Tystiolaeth o weithio'n llwyddiannus i ymgymryd â swydd arwain a/neu lywodraethu (boed trwy'ch gwaith, eich bywyd personol, neu brofiad gwirfoddol) | | |
| Profiad o weithio mewn elusen neu sefydliad elusennol neu gydag un (o bosib fel Ymddiriedolwr) a dealltwriaeth o lywodraethu da | | |
| Profiad o ddelio â dehongli gwybodaeth gymhleth a phrofiad o gynllunio busnes yn ymwneud â chyllid elusen | | |
| Profiad o fewn cyllid Elusennau. | | |
| Llythrennedd ariannol a phrofiad o oruchwylio risgiau a chronfeydd wrth gefn | | |
| **Gwybodaeth Hanfodol** | | |
| Dealltwriaeth neu brofiad o'r Sector Undebau Myfyrwyr | | |
| Dealltwriaeth o'r gymuned fyfyrwyr | | |
| Dealltwriaeth o'r sector Prifysgolion | | |
| Dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r gofynion statudol, gan gynnwys cyfraith elusennau, cyfraith cyflogaeth a/neu gyfraith iechyd a diogelwch | | |

**www.wrexhamglyndwrsu.org.uk**
Wrexham Students' Union, Mold Rd, Wrexham, LL11 2AW

# Manyleb Personol
# Ymddiriedolwr Allanol (parhad)

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a galluoedd** | | |
| Bod â'r hyder, y sgiliau a'r ymwybyddiaeth i feithrin cysylltiadau cynhyrchiol gydag ystod o randdeiliaid | | |
| Barn gadarn a'r gallu i feddwl yn gorfforaethol a strategol; y gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol a gwneud penderfyniadau cytbwys | | |
| Sgiliau cyfathrebu cryf, gyda'r gallu i gysylltu a chyfathrebu â phobl ar bob lefel. | | |
| Bod yn unigolyn dyfeisgar y mae'r hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn ei gyflawni gyda barn annibynnol dda yn ennyn hygrededd ynddynt. | | |
| Y gallu a'r awydd i ymroi yr amser a'r ymdrech sydd eu hangen i'r swydd. | | |
| Y gallu i feddwl yn greadigol, a bod â'r awydd i leisio eu barn. | | |
| Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod tîm. | | |
| Y gallu i gyfrannu at ddatblygu a chyflawni Strategaeth yr Undeb. | | |
| **Gwerthoedd ac Ymagweddau** | | |
| Hyrwyddo amrywioldeb, cydraddoldeb, a hygyrchedd. | | |
| Cynnal a hybu uniondeb, tryloywder, a rheoli moesegol o'r safon uchaf. | | |
| Bod yn arweinydd effeithiol sy'n gadarnhaol, yn benderfynol ac yn ddigon gwydn i ymdopi â gofynion y swydd, ac ar brydiau i wneud penderfyniadau anodd. | | |
| Ymddwyn â gonestrwydd, tryloywder ac er budd yr Undeb. | | |
| Y gallu i gydbwyso cyfrinachedd â'r angen am tryloywder. | | |

# Telerau ac Amodau

Swydd ddi-dâl yw hon. Talir dros dreuliau priodol yn unol â pholisi Undeb y Myfyrwyr. Gwnaiff eich cyfnod yn y swydd barhau am ddwy flynedd o'r dyddiad cychwyn ymlaen. Gallwch gael eich diswyddo o'ch swydd drwy'r broses a amlinellir yn yr Erthyglau Cymdeithasol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd yn ôl angen y Bwrdd, ond o leiaf pedair gwaith y flwyddyn bob blwyddyn academaidd. Mae pwyllgorau hefyd yn cwrdd tua phedair gwaith y flwyddyn, a disgwylir i Ymddiriedolwyr Myfyrwyr fod yn aelod o un pwyllgor o leiaf.

O dan Ddeddf yr Elusennau 2008, rydych wedi'ch anghymhwyso rhag bod yn Ymddiriedolwr Myfyriwr os: O dan Ddeddf yr Elusennau 2008, rydych wedi'ch anghymhwyso rhag bod yn Ymddiriedolwr os:

- Rydych o dan 18 mlwydd oed
- Rydych chi wedi cael eich dyfarnu yn euog am drosedd gan gynnwys anonestrwydd neu dwyll yn ymwneud â gwariant cyfreithiol.
- Rydych yn fethdalwr nas rhyddhawyd
- Rydych wedi cael eich diswyddo o'ch swydd fel ymddiriedolwr elusen gan y Llys neu'r Comisiwn Elusennau.
- Rydych wedi'ch anghymhwyso o dan y Ddeddf ar Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau.
- Rydych wedi cytuno ar gyfaddawd o unrhyw fath â chredydwyr nad ydych chi wedi cael eich rhyddhau ohono eto.

Noder: Nid yw Ymddiriedolwyr yn gymwys i ddal swyddi â thâl o fewn Undeb y Myfyrwyr am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn cwblhau eu tymor yn y swydd.

# I ymgeisio:

- Anfonwch eich CV, ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n manylu ar pam ydych yn ymgeisio am y swydd a sut rydych yn ateb y gofyn, at Freya Groom, Llywydd a Chadeirydd y bwrdd ymddiriedolwyr - supresident@wrexham.ac.uk
- Ni ddylai eich llythyr eglurhaol fod mwy na dwy ochor o A4.
- Dylech ddangos yn eich llythyr eglurhaol sut rydych yn bodloni'r gofynion a ddisgrifir yn y fanyleb person yn y pecyn hwn.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5yp 31 Ionawr 2026.

Yr eiddoch yn gywir,



Freya Groom
Llywydd Undeb y Myfyrwyr



Marc Caldecott
Prif Swyddog Gweithredol

Gellir cael mwy o wybodaeth am ddyletswyddau ymddiriedolwr gan y Comisiwn Elusennau neu'r Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol.